

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Gweithdrefn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Datgelu Myfyrwyr

Mae'r holl weithdrefnau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'u datblygu o fewn cyd-destun polisiau a gweithdrefnau presennol y coleg sy'n berthnasol i gyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hil, ac yn bodoli o fewn y fframwaith deddfwriaeth sy'n berthnasol i gydraddoldeb sy'n gosod cyfrifoldebau ar golegau, fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaeth.

Datgelu

Derbyniadau Cyfveliadau ac Ymrestru

Cyfveliadau

- Os yw'r dysgwr wedi datgan ar ei gais ei fod wedi derbyn cymorth dysgu yn y gorffennol, bydd y wybodaeth eisoes wedi cael ei chyfeirio at y fîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i weithredu arni. Bydd y fîm ADY yn defnyddio model ymateb graddedig, ac yn cwrdd â'r dysgwyr perthnasol ar bob dyddiad cyfveliadau a drefnwyd.
- Os nad yw ymgeisydd wedi nodi unrhyw anghenion o ran cefnogaeth a chymorth ar y ffurflen gais, **dylai'r cyfwelydd wirio a yw'r dysgwr yn dymuno trafod unrhyw anghenion cymorth gan ddefnyddio'r cwestiynau cyfweled awgrymedig.** Mae'n bwysig peidio ag addo unrhyw beth yn ystod y cyfnod hwn, ond yn hytrach, dweud wrth yr ymgeisydd y bydd staff y Coleg yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w helpu a'i gefnogi, cyn belled â'u bod nhw'n ymwybodol o'i anghenion.
- Os datgelir anabledd neu Angen Dysgu Ychwanegol, dylai'r cyfwelydd wirio a yw'r ymgeisydd yn fodlon trosglwyddo'r wybodaeth hon ymlaen, a bod asesiad yn cael ei drefnu yn dilyn y broses Cam 1 isod.

Ymrestru

Gofynnir bod manylion ynghylch datgelu anabledd wedi'u nodi ar y ffurflen ymrestru os yw'r dysgwr wedi bod yn bresennol yn y cyfveliadau, gwiriwch:

- Os yw'r dysgwr wedi datgelu anabledd, gwiriwch fod y fîm ADY wedi cysylltu ag ef. Os nad dyma'r achos, dilynwch y broses Cam 1 isod.
- Os ydyw eisoes wedi cwblhau ffurflen gais, a heb ddatgelu anghenion, gofynnwch iddo'n sensitif a hoffai ddatgelu unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24

Proses Cam 1

Mae'r myfyriwr **yn** dymuno gwneud asesiad neu hawlio gymorth, ac yn hapus i drosglwyddo ei fanylion ef/manylion hi ymlaen.



Mewn Cyfweiliad

Yn y cyfweiliad, nodwch hyn, a chynghori'r myfyriwr i gysylltu â'r fîm ADY.

Yn Ystod Ymrestru neu Ar Ôl Hynny Trosglwyddwch fanylion y myfyriwr i'r fîm ADY ar unwaith.

Bydd y fîm ADY yn cysylltu â'r holl ddysgwyr drwy e-bost cyn pen hanner cyntaf y tymor.

Nid yw'r myfyriwr yn dymuno gwneud asesiad neu hawlio cymorth, ac nid yw'n dymuno trosglwyddo ei fanylion ef/manylion hi ymlaen.



1. Pwysleisiwch na fydd yn bosib darparu unrhyw gymorth oni bai ei fod yn cytuno i drosglwyddo'r wybodaeth hon ymlaen.
2. Gofynnwch iddo lofnodi a dyddio **Ffurflen Gydsynio**.
3. Dywedwch wrth y dysgwr y bydd rhaid i chi hysbysu'r Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant neu'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol o'i cyflwr, ond y defnyddir y wybodaeth hon at ddibenion lechyd a Diogelwch yn unig, os yw'n hanfodol gwneud hynny.
4. Rhowch y wybodaeth mewn amlen dan sêl gyda'ch enw a'r dyddiad ar y tu allan iddi.
5. Anfonwch y wybodaeth mewn amlen wedi'i marcio'n 'Gyfrinachol' at Bennaeth Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant

Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24

Cynefino (erbyn diwedd mis Hydref)

Tiwtoriaid Cwrs

- Sicrhewch fod dysgwyr yn cwblhau'r e-diwtorial Traws Goleg ar anabledd a chydaddoldeb.
- Wrth gyfarfod â'r dysgwyr yn unigol yn ystod y broses gynefino, anogwch nhw i ddatgan unrhyw anabledd neu Angen Dysgu Ychwanegol. Os yw dysgwr yn datgelu anabledd am y tro cyntaf, mae'n rhaid trosglwyddo'r manylion i'r fîm ADY yn syth. Os yw'r dysgwr sy'n datgelu anabledd yn dymuno gwneud hynny'n gyfrinachol, dilynwch y weithdrefn a amlinellir yng Ngham 1 uchod.
- Sicrhewch eich bod yn cysylltu â'r fîm ADY ynghylch anghenion cymorth eich dysgwyr.
- Sicrhewch eich bod yn gweithio gyda'ch gilydd i hysbysu staff yn nhîm eich cwrs o anghenion eich myfyrwyr, ac unrhyw gamau maent angen eu dilyn i fodloni'r anghenion hyn.

Staff Addysgu Eraill

- Os ydych yn pryderu am fyfyrwr penodol, sydd ag anabledd neu angen dysgu ychwanegol nas datgelwyd yn eich barn chi, cysylltwch â'r fîm ADY.
- Os yw dysgwr yn datgelu anabledd am y tro cyntaf, mae'n rhaid trosglwyddo'r manylion i'r fîm ADY yn syth. Os yw'r dysgwr sy'n datgelu anabledd yn dymuno gwneud hynny'n gyfrinachol, dilynwch y weithdrefn a amlinellir yng Ngham 1 uchod.
- Sicrhewch eich bod yn gweithio gyda'ch gilydd i hysbysu staff yn nhîm eich cwrs o anghenion eich myfyrwyr, ac unrhyw gamau maent angen eu dilyn i fodloni'r anghenion hyn

Tiwtorialau

- Cyn hanner tymor mis Hydref, hysbyswch ddysgwyr unwaith yn rhagor am hawlio cymorth dysgu.
- Petai unrhyw ddysgwr yn datgelu rhywbeth, dilynwch y camau yng Ngham 1 uchod.

Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24

Y Tu Allan i'r Dosbarth

- Petai myfyriwr yn datgelu anabledd neu Angen Dysgu Ychwanegol i chi, dylech ofyn iddo a ydyw wedi hysbysu tiwtor ei gwrs, ac a ydyw'n derbyn cymorth yn y Coleg. Os ydyw'n dweud na, dilynwch Gam 1 uchod.

Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24

Ffurflen Gydsynio

Rwyf wedi trafod y cyfleoedd cymorth sydd ar gael i gefnogi fy nysg ac;

- ☐ **Nid wyf** eisiau derbyn y cymorth a gynigwyd. Mae hyn yn golygu nad wyf eisiau trosglwyddo'r wybodaeth gyfrinachol rwyf wedi'i datgelu ynghylch fy anabledd/angen dysgu ychwanegol i unrhyw un, ac rwy'n deall bod hyn yn golygu na fydd posib i mi hawlio unrhyw gymorth ychwanegol ar gyfer fy astudiaethau.
- ☐ **Rwyf eisiau** derbyn y cymorth a gynigwyd.* Rwyf wedi darllen y Ffurflen Gydsynio, a/neu, mae rhywun wedi egluro'r wybodaeth i mi mewn modd rwy'n ei deall, ac rwy'n deall y bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio neu ei rhannu gyda'r adrannau, personau, ac asiantaethau eraill uchod, os yw gwneud hynny yn berthnasol ac wedi'i gyfiawnhau.

Llofnodwyd (Dysgwr)

Dyddiad

Enw Mewn Print (Dysgwr)

Llofnodwyd (Aelod o Staff)

Dyddiad

Enw Mewn Print (Aelod o Staff)

*Drwy roi eich caniatâd, rydych yn cytuno i'r fîm ADY eich cefnogi chi. Golyga hyn y byddwn yn storio a rhannu gwybodaeth ynghylch sut i'ch cefnogi chi.

Storio gwybodaeth:

Byddwn yn storio gwybodaeth ar Gronfa Ddata ADY. Byddwn yn storio gwybodaeth sydd ei hangen i roi cymorth i chi yn unig.

Rhannu gwybodaeth:

Bydd y fîm ADY yn rhannu gwybodaeth gyda phobl eraill a all ddarparu cymorth yn unig. Gallai hyn gynnwys eich tiwtor, darlithwyr, staff cymorth, cynghorwyr gyrfa ac asiantaethau allanol eraill.

Unrhyw sylwadau eraill:

Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24

Rhowch y wybodaeth mewn amlen dan sêl gyda'ch enw a'r dyddiad ar y tu allan iddi.
Anfonwch hon mewn amlen wedi ei marcio'n 'Gyfrinachol' at Bennaeth Anghenion Dysgu
Ychwanegol a Llesiant.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei storio'n ddiogel gyda'r Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant yn unol â'n Polisiâu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Diogelu Data.

Dyddiad cymeradwyo: 04/07/2013

Cymeradwywyd gan: Bwrdd Safonau Ansawdd

Dyddiad adolygu: 07/09/2024

Rheolwr sy'n Gyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol, Taith y Dysgwr

Arweinydd Gweithredol: Is-Bennaeth, Taith y Dysgwr ac Ansawdd

Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy

Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/09/24